# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Environment and Sustainability Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

24 Hydref 2012

Annwyl Alun

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-14**

Diolch am ymddangos ger ein bron ar 18 Hydref 2012. Rydym wedi nodi ein casgliadau o'r sesiwn mewn llythyr i'r Pwyllgor Cyllid, ac mae copi wedi'i amgáu.

I grynhoi, rydym wedi amlygu'r meysydd canlynol i'r Pwyllgor Cyllid i'w hystyried:

- Dibyniaeth ar gyllidebau staffio canolog
- Llongau gorfodi pysgodfeydd
- Trosglwyddo swyddogaethau pysgodfeydd
- Cronfa ddata tagiau electronig
- Ailbroffilio cyllideb y cynllun datblygu gwledig
- Grantiau hyrwyddo bwyd

Fel y gwelwch o'n cyflwyniadau i'r Pwyllgor Cyllid, mae gennym geisiadau i chi yn rhai o'r meysydd hyn. Mae'r ceisiadau hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a nodir yn y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid. Er mwyn croesgyfeirio'n hawdd, mae'r rhifau sy'n dilyn pob pennawd isod yn cyd-fynd â'r paragraff perthnasol yn y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid. Gweler y ceisiadau isod:

- ***Llongau gorfodi pysgodfeydd (1.3)*** – Rydym yn bwriadu cadw golwg ar y maes hwn a gofynnwn i chi ddarparu manylion i ni am y cynnydd cyn gynted ag y byddwch yn cytuno ar ffordd ymlaen ar gaffael llongau, neu ym mis Ionawr 2013, pa un bynnag fydd gynharaf. Erbyn hynny, bydd gennym ddiddordeb gweld y ffynhonnell o gyllid cyfalaf yr ydych wedi'i nodi ar gyfer y rhaglen hon.
- ***Trosglwyddo swyddogaethau pysgodfeydd (1.4)*** – Gofynnwn i chi gadarnhau a yw'r costau technoleg gwybodaeth cynyddol sy'n gysylltiedig â

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8709/8639
E-bost / Email:dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk
alun.davidson @wales.gov.uk

datganoli rhagor o bwerau yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu a fydd angen cronfeydd yn 2013-14?


- ***Cronfa ddata tagiau electronig (EID) (1.5)*** – Gwnaethoch nodi y bydd angen i chi ganfod cyllid ychwanegol ar gyfer cronfa ddata EID ac y bydd hynny tua £2-3 miliwn. Pan wnaethoch ymddangos ger ein bron, nid oeddech yn gallu darparu manylion pellach am o le y byddai'r cyllid hwn yn dod. Gan nad oes llawer o hyblygrwydd ar gael yn eich cyllideb, gofynnwn i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau a gynlluniwyd yn eich dyraniadau yng nghyllideb 2013-14 er mwyn cynnwys y cyllid ychwanegol hwn cyn gynted ag sy'n bosibl.
- ***Ailbroffilio cyllideb y cynllun datblygu gwledig (3.3)*** – Gofynnwn i chi ddarparu manylion i ni am faint yr ailbroffilio, amserlen ar gyfer yr ailbroffilio a lefel y risg sy'n bodoli gyda rhai o'r cronfeydd sy'n gorfod cael eu dychwelyd i'r UE.
- ***Grantiau hyrwyddo bwyd (4.2)*** – Roedd gennym ddiddordeb clywed am yr amcanion y mae'n rhaid i'r rhai sy'n derbyn grantiau hyrwyddo bwyd eu pennu, yn benodol trosiant a chreu swyddi. Gwnaethoch ddweud y gallech gael darlun byd-eang o'r perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn. Gofynnwn i chi ddechrau dwyn y gwaith hwn ynghyd gan ei fod yn fater yr ydym yn bwriadu ei ystyried ymhellach.

Yn fwy cyffredinol, gwnaethoch ymateb i sawl cwestiwn ynghylch darparu adnoddau drwy gyfeirio at gyllid digonol sydd ar gael o gyllidebau staffio gan adrannau canolog a Llywodraeth Cymru. Rydym ychydig yn bryderus bod nifer o flaenoriaethau polisi a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perygl os na allwch gael gafael ar gyllid digonol i'w cyflawni. Byddem yn disgwyl, mewn sesiynau craffu yn y dyfodol, eich bod yn gallu nodi'n glir i'r Pwyllgor eich llwyddiant wrth gael gafael ar y cronfeydd hyn i gynyddu gallu'ch adran i gyflawni ei chanlyniadau a nodwyd.

Bu gwelliannau yng nghyflwyniad ac eglurder y papurau cyllideb a'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd. Rydym yn croesawu symudiadau tuag at well tryloywder. Fodd bynnag, mae lle sylweddol i wella o hyd. Er bod camau wedi'u cymryd i geisio cysylltu cynllunio ariannol ag amcanion polisi'r rhaglen llywodraethu, mae angen gwneud mwy i wneud y cysylltiadau hyn yn gliriach. Mae angen egluro rhagor er mwyn galluogi mwy o graffu ariannol cynhwysfawr, a byddwn yn disgwyl gwelliannau pellach pan fyddwn yn dychwelyd at graffu ariannol o fewn y flwyddyn a chraffu ar gyllideb ddrafft 2014-15 yr hydref nesaf.

Diolch i chi eto am ymddangos ger ein bron. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



**Dafydd Elis-Thomas AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
c.c. Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid